



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Gwybodaeth am Frechiad COVID-19 ar gyfer Rhieni a Gwarcheidwaid Plant a Phobl Ifanc 12-15 oed

Annwyl Riant / Warcheidwad

Fel y gwyddoch efallai, mae Prif Swyddogion Meddygol y DU wedi argymhell y dylai pawb 12-15 oed nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys mewn rhaglenni brechu COVID-19 presennol gael cynnig dos cyntaf o frechlyn COVID-19 Pfizer-BioNTech.

Mabwysiadwyd eu cyngor gan bob un o bedair Llywodraeth y DU gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae gwaith bellach ar y gweill ledled y wlad i gynnig brechiad COVID-19 i bob plentyn a pherson ifanc 12-15 oed nad ydynt wedi derbyn gwahoddiad o'r blaen.

Ledled Cymru, bydd y rhan fwyaf o frechiad COVID-19 ar gyfer pobl ifanc 12-15 oed yn cael ei gynnig mewn Canolfannau Brechu Torfol. Dyma hefyd y dull rydyn ni'n ei fabwysiadu ym Mhowys. Bydd pob plentyn 12-15 oed sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu ym Mhowys yn derbyn gwahoddiad gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys am apwyntiad yn un o'n canolfannau brechu torfol:

- Bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn anfon gwahoddiad i'ch cyfeiriad cartref yn gwahodd pobl 12-15 oed i apwyntiad gyda'u rhiant/gwarcheidwad. Fel arfer, byddwch yn derbyn llythyrau gwahoddiad cyn diwedd mis Hydref.
- Bydd yr apwyntiad mewn canolfan brechu torfol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ym Mronllys, Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd. Fel arfer, cynigir apwyntiadau gyda'r nos neu ar y penwythnos, mewn sesiynau clinig yn benodol ar gyfer pobl dan 18 oed.
- Rydym yn eich annog i fynd i'r apwyntiad ar yr amser y cynigir i chi lle bynnag y bo modd. Bydd hyn yn ein helpu i gynnig brechiad i gynifer o bobl â phosibl, cyn gynted â phosibl. Os na allwch fod yn bresennol ar yr amser y cawsoch gynnig, defnyddiwch y manylion cyswllt yn eich llythyr archebu i ofyn am ddewis arall.
- Os oes mwy nag un person 12-15 oed yn eich cartref, yna gallwch ddod â nhw i gyd ar yr un pryd ar gyfer apwyntiad brechu, hyd yn oed os ydych yn derbyn llythyrau gwahoddiad ar wahân. Nid yw brechu ar gael ar hyn o bryd i blant dan 12 oed.
- Yn seiliedig ar ganllawiau'r DU, cynigir un dos o frechlyn COVID-19 i'r rhan fwyaf o blant 12-15 oed. Mae rhai plant sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol yn fwy agored i salwch difrifol yn sgil COVID-19 ac yn cael cynnig dau ddos.

Bydd pobl ifanc 12-15 oed sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu mewn sir gyfagos yng Nghymru yn cael eu gwahoddiad gan eu Bwrdd Iechyd lleol. Bydd

pobl ifanc 12-15 oed sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr yn cael gwahoddiad gan eu rhaglen frechu leol yn Lloegr.

Nid yw'r brechlyn yn orfodol a gall pobl ddewis a ddylid cael y brechlyn ai peidio. Bydd gwybodaeth briodol ar gael i blant a phobl ifanc a'u rhieni i benderfynu ar frechu. Byddwn yn gofyn i rieni neu warcheidwaid ddod i'r apwyntiad brechu gyda'r person ifanc, ac rydym yn annog rhieni, gwarcheidwaid, plant a phobl ifanc i drafod gyda'i gilydd a ddylid cael y brechiad ai peidio.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol drosodd i'ch helpu i wneud y penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn <https://biap.gig.cymru/coronafeirws/brechu-covid-19/> (cliciwch ar y ddolen ar ein tudalen am "12-15").

Bydd eich llythyr gwahoddiad hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y brechlyn COVID-19 a'ch apwyntiad.

Gyda chyfraddau uchel o'r coronafeirws ym mhob rhan o Gymru, mae'n hanfodol ein bod i gyd yn cymryd camau i amddiffyn ein hunain a'n hanwyliaid. Mae'r camau allweddol ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yn cynnwys:

- Dilyn yr holl ganllawiau a roddwyd i chi gan eich ysgol.
- Os oes gennych symptomau: arhoswch gartref a chael prawf PCR.
- Os nad oes gennych unrhyw symptomau: daliwch ati i wneud profion llif ochrol rheolaidd a rhowch wybod am eich holl ganlyniadau.
- Cael y brechlyn os cewch gynnig y brechlyn.
- Golchwch eich dwylo'n rheolaidd
- Gwisgwch orchuddion wyneb pan fo angen.

Mae rhagor o wybodaeth am Profi Orlhain Diogelu (POD) gan gynnwys opsiynau profi COVID ym Mhowys ar gael ar ein gwefan yn **biap.gig.cymru/yma/pod**

Diolch am bopeth rydych chi'n parhau i'w wneud i Ddiogelu Powys.

Stuart Bourne, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Medi 2021

biap.gig.cymru/coronafeirws/brechu-covid-19/

biap.gig.cymru/yma/pod



Gwybodaeth i chi a'ch rhiant/gwarcheidwad

Mae'r brechlyn COVID-19 yn cael ei gynnig i bob plentyn 12-15 oed yng Nghymru, er mwyn helpu i ddiogelu eich iechyd a llesiant.

Mae'r penderfyniad i gael eich brechiad COVID-19 yn ddewis i bob unigolyn ei wneud.

Os oes gennych gwestiynau am y brechlyn cymerwch amser i chwilio am wybodaeth y gellir ymddiried ynddi a chywir - mae'r GIG bob amser yn fan cychwyn da - a sgwrsio am yr hyn rydych chi'n ei feddwl, gyda'ch rhiant/rhieni neu warcheidwad.

Mae'n debygol bod gennych hefyd deulu neu ffrindiau sydd wedi cael eu brechlyn ac a allai sgwrsio â chi am sut roeddent yn teimlo, neu helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Rhaid i chi roi cytundeb clir (a elwir yn 'ganiatâd') cyn y gellir rhoi unrhyw frechiad - felly chi sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd.

Mae llawer o wybodaeth ar gael am frechlyn COVID-19, felly byddwch yn ofalus a defnyddio gwybodaeth gywir y gellir ymddiried ynddi yn unig i'ch helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych

Dyma rai lleoedd y gellir ymddiried ynddynt i chi gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam rydych yn cael cynnig y brechlyn, unrhyw sgil-efeithiau y gallech eu profi. Byddant hefyd yn cynnig rhagor o wybodaeth i chi am y brechlyn neu os na allwch gyttuno â'ch rhiant/rhieni neu warcheidwad ar beth i'w wneud:

**Iechyd Cyhoeddus
Cymru**



BBC



**Cymdeithas
Imiwnoleg Prydain**



Efallai y byddwch yn dal i gael budd o gael y brechlyn hyd yn oes os ydych wedi cael COVID-19 o'r blaen. Os ydych wedi profi'n positif am haint COVID-19 yn y 28 diwrnod diwethaf, mae angen i chi aros ychydig yn hirach i gael eich brechlyn. Mae angen i'ch dos cyntaf fod o leiaf 28 diwrnod ar ôl i chi brofi'n positif.

P'un a ydych yn cael y brechlyn ai peidio, daliwch ati i wisgo masg mewn mannau cyhoeddus dan do, gan aros gartref a chael prawf a oes gennych symptomau coronafeirws, a daliwch ati i olchi eich dwylo'n rheolaidd.